Un Llais Cymru

One Voice Wales

**Astudiaethau Enghreifftiol Arfer Gorau Un Llais Cymru 2025**

| **Gwobrau Un Llais Cymru<br>Enillwyr 2025** | |
|---|---|
| **Categori** | **Cyngor** |
| 1. Menter Lywodraethiant Orau<br><br>Cyd Enillwyr | [Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl](https://pontypoolcc.gov.uk/) <https://pontypoolcc.gov.uk/><br><br>Mae'r prosiect hwn yn disgrifio Adroddiad Blynyddol bywiog sy'n pwysleisio hygyrchedd, yr effaith ar y gymuned, ystyriaethau ariannol a datrysiadau digidol. Mae'r adroddiad i'w weld ar y wefan uchod.<br><br>Lisa McMail<br>LMcMail@pontypoolcc.gov.uk |
| | Cyngor Tref Blaenafon<br><br>Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn, sy'n rhoi sylw i hygyrchedd, cyflawniadau a gwaith partneriaeth yn arddangos agwedd y Cyngor at gydweithio, atebolrwydd, cynaliadwyedd ac effaith. Mae'r adroddiad i'w weld ar y wefan uchod.<br><br>Kevin Warren<br>kevin.warren@blaenavontowncouncil.co.uk |
| 2. Menter Iechyd Democrataidd Orau | Nid oedd enillydd. |

| | |
|---|---|
| 3. Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol | Cyngor Cymuned Rhosili<br><br>Mae'r wefan ar ei newydd wedd yn cydweddu â gwefan gymunedol gysylltiol. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi Cyngor hygyrch sy'n rhoi pwyslais ar ddatrysiadau digidol. Mae cyfrifon e-bost pwrpasol, hyfforddiant ar-lein, ymarferion ymgynghori digidol ymhlith rhai o'r dulliau blaengar a ddefnyddir i wynebu'r heriau hyn.<br><br>Cynghorydd Gill Boulding<br>gill.boulding@rhossilicc.org.uk |
| 4. Menter Gynaliadwyedd Orau<br><br>Cyd Enillwyr | Cyngor Tref Caerfyrddin<br><br>Trefnwyd Cynhadledd Hinsawdd Caerfyrddin i Blant 2024 trwy ddefnyddio'r Grym Cymhwysedd Cyffredinol. Gweithiodd y Cyngor gyda phartneriaid i drefnu profiad rhagorol ar gyfer yr ysgolion a gymerodd ran. Cyfrannodd y digwyddiad at nodau cynaliadwyedd cenedlaethol a lleol, gan hyrwyddo Cymru sy'n fyd-eang gyfrifol. Roedd yn ddigwyddiad dwyieithog, a chafwyd grwpiau iaith mewn sesiynau ymrannu a sesiynau dwyieithog ar y cyd.<br><br>Trwy ddod ag ysgolion o bob rhan o'r ardal at ei gilydd, cryfhaodd y Cyngor gydlyniant cymunedol, ac roedd sesiynau ar leihau gwastraff ac olion traed carbon yn annog y genhedlaeth nesaf i fod yn fwy amgylcheddol wydn.<br><br>Cynghorydd Heledd ap Gwynfor<br>hapgwynfor@carmarthentowncouncil.gov.uk |
| | Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd trwy ei Bolisi Caffael Cynaliadwy, sy'n sicrhau bod penderfyniadau caffael yn gydnaws â lleihau carbon, prynu cyfrifol, a datblygu economaidd lleol.<br><br>Kerry-Leigh Grabham<br>kerryleighgrabham@mumbles.gov.uk |

| | |
|---|---|
| 5. Prosiect Amgylcheddol Gorau | Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>Mae Gardd Synhwyraidd y Pedwar Tymor yn llecyn hygyrch, deniadol sy'n gwneud lles i'r amgylchedd ar gyfer y gymuned. Mae'n cynnig symbyliadau synhwyraidd trwy gydol y flwyddyn trwy ddewis amrywiol o blanhigion, gweadau, lliwiau, ac arogleuon, gan sicrhau bod pob ymwelydd yn cael eu cynnwys, yn enwedig felly'r sawl sydd ag anghenion prosesu synhwyraidd. Un o'r nodweddion amlycaf yw'r Ardd Law, cyfleuster yn seiliedig ar natur sy'n cyfoethogi'r profiad synhwyraidd ac yn gwneud cyfraniad o bwys at wytnwch amgylcheddol yn lleol. Mae ymgysylltu cymunedol a chyhoeddusrwydd yn rhannau pwysig o'r gwaith.<br><br>Kerry-Leigh Grabham<br>kerryleighgrabham@mumbles.gov.uk |
| 6. Menter Dreftadaeth a Diwylliant Orau | Cyngor Cymuned Bedwas, Tretomas & Machen <https://www.btmcc.co.uk/><br><br>Dechreuodd y Cyngor ar y gwaith o adfer Neuadd y Gweithwyr Bedwas er mwyn dathlu 100 mlwyddiant y ganolfan bwysig hon. Mae cyflwyniad y Cyngor yn disgrifio'r trefniadau rheoli prosiect ac ariannol yn fanwl ynghyd â hanes cymdeithasol lleoliad eiconig.<br><br>Cynghorydd Christopher Morgan<br>Morgac15@caerphilly.gov.uk |
| 7. Menter Dwristiaeth Orau | Cyngor Cymuned Guilsfield<br><br>Roedd Ffair Aeaf 2024 Guilsfield yn fenter dwristiaeth lwyddiannus iawn oedd yn hwb gwirioneddol i'r economi dwristiaeth leol ac yn hyrwyddo treftadaeth a chymeriad diwylliannol unigryw y pentref gwledig hwn. Roedd ennyn diddordeb busnesau lleol yn anhepgor ar gyfer llwyddiant menter a wnaeth gyfraniad pwysig i'r economi leol. Arweiniodd y ffair hefyd at edrych ar fentrau twristiaeth eraill, megis teithiau cerdded tywys a chydweithrediadau gyda darparwyr llety lleol. |

| | |
|---|---|
| | Cynghorydd Amy Williams<br>amy.og@icloud.com |
| 8. Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau | Cyngor Tref Blaenafon<br><br>Helpodd ymrwymiad y Cyngor i gryfhau clymau cymunedol a sicrhau bod lleisiau lleol yn siapio dyfodol y dref a threfnu dau ddigwyddiad ymgysylltu pwysig yn 2024. Roedd y Diwrnod Llesiant Cymunedol ym mis Mai a Digwyddiad Dinesig Blaenafon ym mis Hydref yn ymdrechion bwriadol i ymgysylltu â'r gymuned, gan arddangos ymrwymiad i bartneriaeth gyda phobl leol. Disgrifiodd y Cyngor hefyd sut mae ymgysylltu cymunedol wedi helpu cyfrannu at strategaeth y Cyngor yn y dref hanesyddol hon yng Ngwent.<br><br>Kevin Warren<br>kevin.warren@blaenavontowncouncil.co.uk |
| 9. Menter Ymgysylltu Ieuenctid Orau<br><br>Cyd Enillwyr | Cyngor Tref Yr Wyddgrug<br><br>Mae Cyngor Tref Yr Wyddgrug wedi dangos ymrwymiad rhagorol i ymgysylltu â phobl ifanc trwy sefydlu ac adfywio Cyngor Ieuenctid Tref Yr Wyddgrug. Mae'r fenter hon yn gofalu fod lleisiau ifanc yn y gymuned yn cael eu clywed a'u cynrychioli.<br><br>Mae cyflwyniad y Cyngor yn disgrifio nifer o fentrau blaengar sy'n dangos sut all Cyngor ennyn diddordeb ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddod yn aelodau rhagweithiol o'u cymuned. Mae parcio, fepio a dosbarthu gwybodaeth oll wedi cael eu harchwilio a'u gwella gan y bobl ifanc. Mae'r prosiect wedi helpu gwneud Yr Wyddgrug yn lle mwy diogel a chydlynol i bawb.<br><br>Jo Lane<br>townclerk@moldtowncouncil.org.uk |
| | Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl <https://pontypoolcc.gov.uk/><br><br>Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae'r Cyngor yn darparu clybiau ieuenctid hygyrch a difyr ar draws ardal Pont-y- |

| | |
|---|---|
| | pŵl. Mae'r clybiau'n darparu ar gyfer pobl ifanc 8 i 18, ac yn cynnig gweithgareddau o bob math ar gyfer cefnogi datblygiad personol, llesiant, ac ymgysylltu cymdeithasol.<br>Mae ariannu'r staffio, adnoddau, costau gweithgareddau, a llogi lleoliadau yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn hygyrch ac yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr.<br><br>Lisa McMail<br>LMcMail@pontypoolcc.gov.uk |
| 10. Menter Pobl Hŷn Orau | Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>Lansiwyd Coffee with Friends er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol a gwella ymgysylltu cymunedol ymhlith pobl hŷn ar ôl Covid. Gan gydnabod yr heriau y mae llawer o bobl hŷn yn eu hwynebu wrth geisio cadw cysylltiadau, creodd y Cyngor ofod croesawgar, cynhwysol lle y gallai pobl hŷn gwrdd yn rheolaidd, mwynhau sgwrs, ac adeiladu perthnasoedd. Mae cydweithio gyda phartneriaid megis busnesau, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol eraill wedi helpu llunio menter sy'n meithrin cyfeillgarwch, mynd i'r afael ag unigrwydd, a gwella llesiant pobl hŷn.<br><br>Kerry-Leigh Grabham<br>kerryleighgrabham@mumbles.gov.uk |
| 11. Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau | Cyngor Cymuned Buan<br><br>Gweithiodd y Cyngor gyda phartneriaid allweddol i drawsnewid hen gae ysgol yn lle chwarae ar gyfer plant yr ardal.  Mae cyflwyniad y Cyngor yn disgrifio trefniadau rheoli'r prosiect, y sianeli cyfathrebu a'r ffynonellau ariannu a helpodd ddarparu amgylchedd diogel lle y gallai plant chwarae a mwynhau eu hunain yn yr awyr agored mewn cymuned fechan ym Mhen Llŷn.<br><br>Nia Jane Owen-Midwood<br>Clercbuan@outlook.com |
| 12. Menter Orau ar Fynd i'r Afael â'r Argyfwng Costau Byw | Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>Gyda chymorth grant gan Gyngor Dinas Abertawe, datblygodd y Cyngor fenter |

| | |
|---|---|
| | gymunedol, flaengar i wella llesiant cymdeithasol, corfforol ac emosiynol trwy weithgareddau chwarae rhad ac am ddim. Gan gydnabod heriau unigrwydd cymdeithasol, pwysau ariannol, a llai o gyfleoedd i fwynhau profiadau cyfoethogol wedi Covid, aethant ati i drawsnewid llecynnau cymunedol yn hybiau ar gyfer sesiynau chwarae cynhwysol yn yr awyr agored. Mae'r digwyddiadau hyn yn creu cyfleoedd i blant ymgysylltu, cymdeithasu, a dysgu, tra'n atgyfnerthu ymdeimlad o ysbryd cymunedol mewn llecynnau lleol diogel a chroesawgar.<br><br>Mae Mumbles Crop Collective (MCC) yn fenter dan arweiniad y gymuned sy'n ceisio mynd i'r afael â chostau byw uwch trwy alluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain. Mae Cyngor Cymuned Y Mwmbwls yn darparu atebion hygyrch, cynaliadwy i heriau diogelwch bwyd. Mae'r fenter yn cynnig cyfleoedd dysgu ymarferol i unigolion o bob oed a chefndir, ac yn sicrhau bod tyfu bwyd yn gallu digwydd ac yn gynaliadwy.<br><br>Mae Support Café yn hwb cymunedol croesawgar sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth dros goffi a chacen. Trwy gyfuno atebion seiliedig ar chwarae, cymorth gyda bwyd, a phartneriaethau ariannu allweddol, mae'r fenter hon yn enghraifft o ffordd gydweithredol o fynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw, ac yn cynnig buddion parhaus i deuluoedd a'r gymuned ehangach.<br><br>Kerry-Leigh Grabham<br>kerryleighgrabham@mumbles.gov.uk |
| Gwobr Gwasanaeth Cyngor Lleol y Flwyddyn Gorau Caerwyn Roberts, noddwyd gan Unity Trust Bank.<br><br>Cyd Enillwyr | Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>Kerry-Leigh Grabham<br>kerryleighgrabham@mumbles.gov.uk<br><br>Cyngor Cymuned Guilsfield<br><br>Cynghorydd Amy Williams<br>amy.og@icloud.com<br><br>*Roedd yr aseswyr wedi cydnabod perfformiad cyffredinol pob un o'r Cynghorau hyn, a disgrifir* |

| | |
|---|---|
| | *yr hyn a gyflawnasant uchod. Rhannwyd y wobr rhwng Cyngor mwy a Chyngor llai.*<br><br>*Mae cyhoeddi cyd enillwyr yn adlewyrchu cydnabyddiaeth yr aseswyr fod Cynghorau ledled Cymru yn amrywio cryn dipyn o ran adnoddau, heriau, diwylliant, a chyfleoedd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae Gwobrau 2025 yn adlewyrchu sector Cynghorau Cymuned a Thref sy'n ymatebol, deinamig ac sy'n cael ei danio gan awydd i ddiwallu anghenion eu cymunedau ar draws ystod eang iawn o fentrau.* |

**Gwobrau Un Llais Cymru**

**Canmoliaeth Uchel**

**2025**

| **Categori** | **Cyngor** | **Trosolwg o'r Prosiect** |
|---|---|---|
| 1. Menter Lywodraethiant Orau | Cyngor Tref Cricieth<br>Cyngor Tref Cwmaman | Cafodd pob Cyngor eu cydnabod am ansawdd eu hadroddiad blynyddol. Gellir gweld pob adroddiad ar wefan pob Cyngor unigol. |
| 2. Menter Iechyd Democrataidd Orau | Cyngor Tref Blaenafon | Roedd cyflwyniad y Cyngor i adolygiad cymunedol Cyngor Torfaen yn cynnig amddiffyniad cadarn o iechyd democrataidd lleol. Roedd y Cyngor yn dadlau yn erbyn y bwriad i leihau nifer y cynghorau ac yn amlinellu'r effaith andwyol y byddai'r lleihau hwn yn ei chael ar lywodraethiant y dref, gan esbonio'r goblygiadau gweithredol, democrataidd, a strategol. Mae ymgysylltu democrataidd ac amrywiaeth yn nodweddion amlwg yn nadleuon y Cyngor. |
| 3. Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol | Cyngor Tref Y Fenni<br>Cyngor Cymuned Cwmbrân | Mae Cyngor Tref Y Fenni wedi ymrwymo i wneud y dref yn hygyrch, croesawgar, a chynhwysol i bawb. Mae taith hygyrch 3D trwy'r Dref a Neuadd y Farchnad, a grëwyd mewn partneriaeth gyda 3DPi a Matterport, yn adnodd arloesol sy'n rhoi'r gymuned yn gyntaf, gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau y gall pawb grwydro a mwynhau Y Fenni yn hyderus.<br><br>Mae cyfeillion yng Nghwmbrân yn defnyddio datrysiadau digidol i esbonio beth mae'r Cyngor yn ei ddarparu, casglu adborth er mwyn llywio a mireinio prosiectau, dathlu llwyddiant a blaengaredd a gweld pa wasanaethau sydd bwysicaf i'r gymuned. Mae "Gwener Adborth" yn chwarae rhan fawr! |
| 4. Menter Gynaliadwyedd Orau | Cyngor Tref Caerfyrddin<br>Cyngor Cymuned Llanengan | Yn 2024, cynhaliodd Cyngor Tref Caerfyrddin astudiaeth hyfywedd ar ynni cymunedol a ariannwyd gan arian SPF Llywodraeth y DG i chwilio am ffyrdd ymarferol o helpu Caerfyrddin i gyrraedd sero net erbyn 2050. Edrychodd yr astudiaeth ar feithrin cydweithio gweithredol ar draws holl sectorau'r gymuned er mwyn cytuno ar gamau wedi'u targedu mewn lleoliadau ac eiddo penodol, ac mewn grwpiau cymunedol allweddol. Disgrifir y prif ddeilliannau.<br><br>Yn dilyn ymgysylltu rheolaidd gyda'r gymuned, roedd Cyngor Cymuned Llanengan/Menter Rabar yn gallu cyflwyno cynllun busnes cynhwysfawr i Gyngor Gwynedd i drosglwyddo adeilad yr hen ysgol yn Aber-soch i'r gymuned. Un o'r penderfyniadau oedd creu gardd gymunedol, hyrwyddo cerdded neu seiclo, a sefydlu unedau busnes. Mae cydweithio gyda phartneriaid wedi chwarae rhan fawr. |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Prosiect Amgylcheddol Gorau | Cyngor Tref Cricieth | Mae'r Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i ofynion statudol trwy gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ar ei ddyletswydd & gweithio gyda'r gymuned & phartneriaid ar weithgareddau yn ymwneud â bioamrywiaeth e.e. Cricieth yn ei Blodau & Chyfeillion yr Ardd Natur. Mae prosiectau yn hyrwyddo cynaliadwyedd & bioamrywiaeth trwy weithredu arferion cynaliadwy & amgylchweddus, gan sicrhau bod pobl o bob oed yn cymryd rhan, a'u helpu nhw i brofi & gwerthfawrogi natur, gan arwain at weithredu i ddiogelu & chyfoethogi natur & bioamrywiaeth. |
| 6. Menter Dreftadaeth a Diwylliant Orau | Cyngor Tref Yr Wyddgrug | Mae Bryn y Beili yn safle hanesyddol o gryn bwys diwylliannol a threftadol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n ofalus a'i hyrwyddo trwy gyd ymdrechion Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Tref Yr Wyddgrug a'r elusen leol Cyfeillion Bryn y Beili. Fel parc Baner Werdd arobryn, daeth Bryn y Beili yn hwb deinamig ar gyfer treftadaeth, diwylliant, ac ymgysylltiadau cymunedol. |
| 7. Menter Dwristiaeth Orau | Cyngor Tref Y Fenni | Mae Cyngor Tref Y Fenni wedi hen eiriol dros bwysigrwydd diwylliant a chymuned ar gyfer hyrwyddo twristiaeth. Un o'i fentrau mwyaf llwyddiannus yw'r nawdd blynyddol a rodda ar gyfer addurniadau to Gŵyl Fwyd Y Fenni, arddangosiad unigryw a thrawiadol sy'n trawsnewid Neuadd Farchnad Y Fenni bob blwyddyn. Mae'r digwyddiad yn cefnogi'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | celfyddydau ac yn annog ymgysylltu cymunedol a chynaliadwyedd. |
| 8. Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau | Cyngor Cymuned Aberporth<br>Cyngor Cymuned Llanengan<br>Cyngor Tref Crughywel | Bu Cyngor Cymuned Aberporth yn holi barn y gymuned ar ei phrif flaenoriaethau. Defnyddiwyd nifer o gyfryngau cyfathrebu. Roedd darparu tai bach yn brosiect hollbwysig. Yn Llanengan, gweithiodd y Cyngor gyda'r gymuned i drawsnewid safle ysgol hanesyddol yn hwb cymunedol amlbwrpas, gardd gymunedol, caffi ac arddangosfa dreftadaeth.<br><br>Er mwyn deall problemau'r gymuned a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol, cynhaliodd Cyngor Tref Crughywel ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ar draws y gymuned er mwyn datblygu 'Cynllun Bro'. Roedd y broses hon yn gyfle i'r gymuned nodi ei hanghenion a darparu syniadau ac atebion i'w datrys, yn ogystal â deall y cyfleoedd sydd ar gael a sut i wneud y gorau ohonynt. |
| 9. Menter Ymgysylltu Ieuenctid Orau | Cyngor Cymuned Guilsfield | Mae Canolfan Gymunedol Guilsfield, mewn partneriaeth gyda Chyngor Cymuned Guilsfield, wedi chwarae rhan allweddol yn meithrin ymgysylltu gyda phobl ifanc yn y pentref. Trwy ei arweinyddiaeth a chefnogaeth gyson mentrau ieuenctid lleol megis Clwb Ffermwyr Ifanc Guilsfield, Grŵp Drama Amatur Guilsfield a Theatr Ieuenctid Maldwyn mae'r Cyngor wedi creu amgylchedd deinamig a chynhwysol i bobl |

| | | |
|---|---|---|
| | | ifanc i ymgysylltu, datblygu sgiliau, a chyfrannu i'w cymuned. |
| 10. Menter Pobl Hŷn Orau | Cyngor Cymuned Llandochau Fach<br>Cyngor Tref Blaenafon | Mae Cyngor Cymuned Llandochau Fach wedi ymrwymo i ymateb i anghenion y gymuned ac mae'n annog aelodau'r gymuned i gyfrannu. Yn 2021, trefnodd y Cyngor arolwg o drigolion i asesu anghenion pobl hŷn ac ail-adroddwyd hynny yn 2024. Y nod oedd gweld beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â'r nodau llesiant. Ymgynghorodd y Cyngor gyda'r Comisiwn Pobl Hŷn a gynorthwyodd gyda'r gwaith o baratoi'r arolwg. Disgrifir y prif ganlyniadau yng nghyflwyniad y Cyngor.<br><br>Mae cyfeillion ym Mlaenafon wedi lansio Clwb Ffilm Cyfeillio Blaenafon sy'n cyfarfod yn fisol, a gynhelir yn Sinema Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. Mae'r fenter yn rhoi cyfle i drigolion hŷn fwynhau dangosiad rhad ac am ddim o ffilm gyda lluniaeth wrth gymdeithasu gydag eraill yn y gymuned. Mae llawer o drigolion yn dweud mai hwn yw uchafbwynt eu mis! |
| 11. Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau | Dim gwobr | |
| 12. Menter Orau ar Fynd i'r Afael â'r Argyfwng Costau Byw | Cyngor Cymuned Gwernyfed<br>Cyngor Cymuned Bedlinog & Threlewis<br>Cyngor Tref Cwmaman | Disgrifir nifer o fentrau gwahanol yn y ceisiadau hyn. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys hwb twym yng Ngwernyfed, hwb cymunedol sy'n gwasanaethu Bedlinog a Threlewis, gŵyl |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor Cymuned Cwmbrân<br>Cyngor Tref Hwlffordd<br>Cyngor Tref Yr Wyddgrug<br>Cyngor Tref Y Trallwng | gymunedol yng Nghwmbrân, prosiect i “Fwydo’r Gymuned” yn Hwlffordd, ail-gylchu gwisgoedd ysgol yn Yr Wyddgrug a phrosiect i rannu ffrwythau a llysiau dros ben yn Y Trallwng. |

| **Gwobrau Un Llais Cymru**<br>**Canmoliaeth**<br>**2025** | |
|---|---|
| **Categori** | **Cyngor** |
| 1. Menter Lywodraethiant Orau | Cyngor Cymuned Bedlinog & Threlewis<br>Cyngor Tref Y Fenni<br>Cyngor Cymuned Saint-y-brid |
| 2. Menter Iechyd Democrataidd Orau | Dim gwobr |
| 3. Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol | Cyngor Cymuned Bedlinog & Threlewis |
| 4. Menter Gynaliadwyedd Orau | Cyngor Tref Y Fenni |
| 5. Prosiect Amgylcheddol Gorau | Cyngor Tref Caerfyrddin<br>Cyngor Cymuned Y Pil<br>Cyngor Cymuned Ceri<br>Cyngor Tref Yr Wyddgrug<br>Cyngor Cymuned Rhosili |

| | |
|---|---|
| 6. Menter Dreftadaeth a Diwylliant Orau | Cyngor Tref Y Fenni<br>Cyngor Tref Pontypridd<br>Cyngor Cymuned Buan |
| 7. Menter Dwristiaeth Orau | Cyngor Cymuned Llanengan |
| 8. Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau | Cyngor Cymuned Rhosili<br>Cyngor Cymuned Guilsfield<br>Cyngor Tref Cwmaman<br>Cyngor Cymuned Buan<br>Cyngor Tref Llanfairfechan<br>Cyngor Tref Maesteg |
| 9. Menter Ymgysylltu Ieuenctid Orau | Cyngor Tref Caerfyrddin<br>Cyngor Tref Llanelli |
| 10. Menter Pobl Hŷn Orau | Cyngor Tref Pont-y-clun <https://pontyclun.net/pontyclun-community-council/><br>Cyngor Tref Cwmaman<br>Cyngor Tref Llandrindod |
| 11. Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau | Cyngor Tref Y Fenni |

| | |
|---|---|
| 12. Menter Orau ar Fynd i'r Afael â'r Argyfwng Costau Byw | Cyngor Tref Llanfairfechan<br>Cyngor Tref Nant-y-glo & Blaenau <https://www.nantygloandblainatc.co.uk/><br>Cyngor Cymuned Aberporth |